## Gair gan y Prifathro



Diolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y tymor hwn. Rydym yn parhau i fwynhau ein taith fel Ysgol 3-19, a gan fod cyfyngiadau COVID-19 wedi dod i ben mae'n braf iawn gweld disgyblion o bob oedran yn rhyngweithio gyda'i gilydd ar draws yr ysgol gyfan. Mae gweld hyn ar waith unwaith eto wedi rhoi gwefr i mi fel Prifathro balch yr ysgol. Mae'r tymor wedi bod yn llawn bwrlwm gyda'r disgyblion yn profi llwyddiannau a derbyn llu o brofiadau gwerthfawr fel mae'r rhifyn hwn o G-olwg yn dangos. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll fel teulu ac edrychwn ymlaen yn fawr fel ysgol i barhau i gydweithio fel un gymuned yn y flwyddyn newydd.

## Nôl i'r 80au





Am brofiad anhygoel oedd bod yn rhan o'r sioe Nôl i'r 80'au yng Ngarth Olwg. Mae wedi bod yn fraint i allu perfformio am bedair noson i gynulleidfa lawn. Roedd Theatr Garth Olwg dan ei sang am bedair noswaith wrth i ni berfformio'r Sioe Gerdd gyntaf ers pedair blynedd. Mae'r sioe yn un gyffrous, llawn bwrlwm a hiwmor ac mae wedi bod yn brofiad bythgofiadwy wrth gydweithio, actio, dawnsio a chanu gyda'r Ysgol Ganol, Uchaf a Hŷn yn y sioe hon. Does dim dwywaith fy hoff gân oedd 'O dyma deimlad'. Mae'n gân egniol sy'n gwneud i bawb i wenu ac mae'n lledu brwdfrydedd a chyffro i'r gynulleidfa. Hoffaf ddiolch yn fawr i'r holl staff oedd yn gyfrifol am y cynhyrchiad hwn. Mae wedi bod yn brofiad anhygoel, diolch yn fawr am y cyfle, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr at y sioe nesaf! Gan Greta Hall Williams, Bl 12.






| Dyddiadau Tymor Ysgol | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|
| ~~1 (Hydref 2022)~~ | ~~05/09/2022~~ | ~~28/10/2022~~ |
| ~~2 (Hydref 2022)~~ | ~~07/11/2022~~ | ~~23/12/2022~~ |
| 3 (Gwanwyn 2023) | 09/01/2023 | 17/02/2023 |
| 4 (Gwanwyn 2023) | 27/02/2023 | 31/03/2023 |
| 5 (Haf 2023) | 17/04/2023 | 26/05/2023 |
| 6 (Haf 2023) | 05/06/2023 | 24/07/2023 |







## Eisteddfod y Cymoedd

Bu côr yr Ysgol Isaf a Chanol, ac ensemble lleisiol Blwyddyn 10 yn cystadlu yn Eisteddfod y Cymoedd. Llongyfarchiadau i'r ddau grŵp am eu perfformiadau gwych, ac i'r ensemble lleisiol am gipio'r ail wobr.





## Trip i Plantasia

Ddechrau'r tymor cafodd ddisgyblion blwyddyn 3 a 4 gyfle arbennig i ymweld â Plantasia yn Abertawe fel sbardun i'n thema Cynefin. Roedd y plant wedi gwirioni wrth gwrdd â'r holl anifeiliaid ac wedi dysgu llawer am eu bywydau hefyd.









## Marged a'r Deinasor

Diolch o waelod calon i Loreen Williams am ymweld â phlant Blwyddyn 1 a 2 y tymor hwn. Rydym wedi bod yn darllen ac yn gwneud gweithgareddau ar stori Marged a'r Deinasor dros yr wythnosau diwethaf ac roedd hi'n braf iawn croesawu awdures y stori i'r ysgol. Diolch Loreen.






## Ymweliad yr heddlu

Un bore roedd cyffro mawr yn yr Ysgol Isaf pan ddaeth dau gar heddlu a dau heddwas i'r ysgol. Cafodd y disgyblion y profiad o eistedd yn y car a gweld sut roedd y golau glas yn gweithio a dysgu ychydig am y swydd bwysig hon. Gofynnodd y plant gwestiynau aeddfed iawn iddynt ac roedd ymddygiad pob un ohonynt yn wych.

## Dathlu'r Nadolig

Cawsom hwyl eleni eto yn dathlu'r Nadolig gyda chinio blasus - diolch i staff y ffreutur! Roedd y gystadleuaeth siwmperi Nadolig yn un danllyd eleni a llongyfarchiadau i Greta Williams, Ethan Forkin, Gethin Downes, Taliesin Thomas a Luke Raison am ddod i'r brig.







Diolch i'r staff a disgyblion am eu haelioni gyda'r rhoddion i'r Banc Bwyd. Bydd teuluoedd yr ardal yn gwerthfawrogi'r nwyddau.



Does dim byd yn dweud diwedd y tymor fel teithiau er mwyn dathlu llwyddiannau a gwaith caled ein disgyblion. Roedd disgyblion yr Ysgol Isaf wedi cael y cyfle i gwrdd â Siôn Corn a mynd i Woodland Walk.
Yn yr Ysgol Ganol, cafodd pawb ddiwrnod yn Winter Wonderland yng Nghaerdydd. Cawsant gyfle i sglefrio iâ cyn mynd draw i'r ffair ar gyfer y reidiau. Roedd disgyblion 9 a 10 yn yr Ysgol Uchaf wedi cael mynd i *Infinity* yng Nghaerdydd sef canolfan trampolinio – roeddent wir wedi mwynhau a blino ar ôl y holl neidio. Roedd disgyblion blwyddyn 11 a'r Ysgol Hŷn wedi cael teithiau i Gaerdydd i wneud bach o siopa Nadolig. Am ffordd hyfryd o gloi blwyddyn o waith caled!
























## Ymwelwyr o Norwy

Braf oedd croesawu Tegwen Ellis, Prif Weithredwr Yr Academi Arweinyddol ac ymwelwyr o Norwy i'r ysgol. Trafodwyd addysg 3-19 yn ogystal â Chwricwlwm i Gymru a'r cod ymarfer ADY newydd. Cyflwynodd y Prifathro roddion i'r criw ac roedd pawb yn falch iawn o dderbyn hetiau Cymru!





## Taith i Lundain

Ar ddydd Iau'r 15fed o Ragfyr, aeth yr adrannau Hanes ac Addysg Grefyddol ar daith i Lundain. Roedd pawb yn gysglyd wrth adael yr ysgol am 5:30 yb ond roedd cyntun ar y bws wedi helpu ac yna coffi neu siocled poeth yn y gwasanaethau. Yn gyntaf, aeth y criw Addysg Grefyddol i Deml Fwdhaidd yn Chiswick. Braint oedd cael cyfarfod y mynachod a dysgu am eu gwaith, eu traddodiadau a'u credoau. Yn ogystal â'n cyfarfod ni ac ateb ein holl gwestiynau, roeddent wedi paratoi cinio hyfryd ar ein cyfer ac roedd yn brofiad bythgofiadwy. Ar yr un pryd, aeth y criw Hanes i'r *Churchill War Rooms*. Difyr oedd gweld o ble'r oedd y Llywodraeth yn gweithredu tra bod y bomiau'n disgyn uwchben. Anodd credu'r amodau tywyll ac anghynnes. Yn dilyn hyn, daethom at ein gilydd i gael cinio yn *Covent Gardens*. Ar ôl y cinio, aethom ni i'r *Imperial War Museum.* Yno, cawsom gyfle i ddysgu mwy am yr Ail Ryfel Byd ac roedd yr arddangosfa ar yr Holocaust yn drawiadol ac roedd yn gyfle arbennig i ni gofio. I gloi'r diwrnod, aethom ni i *Winter Wonderland*. Roedd *Hyde Park* yn firi o oleuadau a chaneuon Nadolig. Cawsom fodd i fyw yn sgrechian ar y reidiau a stwffio'n wynebau gyda chrempogau melys. Cawsom ddiwrnod i'w gofio – diolch Miss. Higgins.









## Mentora Prifysgol Caerdydd

Ar ddechrau Tachwedd, daeth mentor o Brifysgol Caerdydd i weithio gyda disgyblion Blwyddyn 8. Pwrpas y sesiynau oedd cael y disgyblion i ystyried pwysigrwydd ieithoedd a'u hannog i barhau i astudio Ffrangeg ac ieithoedd eraill yn y dyfodol. Roedd y mentor yn dod o Tsieina gyda diddordeb penodol mewn K Pop. Roedd y disgyblion wir wedi mwynhau dysgu am ddiwylliant arall ac yn sicr mae llawer o Flwyddyn 8 nawr yn bwriadu parhau i astudio Ffrangeg ym Mlwyddyn 9. Maent yn edrych ymlaen at yr ail sesiwn yn y flwyddyn newydd.



## Sefydliad Seren

Mae Sefydliad Seren yn rhaglen uchelgeisiol ar gyfer dysgwyr rhwng blynyddoedd 8 ac 11 mewn ysgolion ledled Cymru sy'n cefnogi datblygiad sgiliau gwerthfawr a gallu academaidd ar lefel TGAU. Mae'n llwybr i Academi Seren sydd ar gael i fyfyrwyr blwyddyn 12 a 13.

Cyflwynwyd Her Seren Sylfaen yn 2021 lle mae Rhwydwaith Sylfaen Seren wedi ymuno ag OpenLearn i gyflwyno cyrsiau diddorol ar amrywiaeth o byncians. Rydym yn falch iawn o ddau o'n disgyblion blwyddyn 12 a gwblhaodd Olympiad OpenLearn dros yr Haf. Morgan Davies a Catrin England yw dau o'r ychydig ddysgwyr yng Nghymru a enillodd y Wobr Platinwm (y wobr uchaf posibl) ar ôl cwblhau dros 65 awr o astudio. Hoffem longyfarch y ddau ohonoch ar eich cyflawniad. Yn eu geiriau nhw:



Morgan: Rhoddodd yr Olympiad OpenLearn gyfle i mi ddysgu sgiliau newydd, yn ogystal ag atgyfnerthu sgiliau TGAU megis gramadeg Ffrangeg a theori cerddoriaeth. Astudiais ystod eang o bynciau fel rhan o'r her a byddaf yn annog eraill i gymryd rhan.



Catrin: Roedd cwblhau'r wobr Seren Sylfaen yn gyfle gwych i mi ddysgu a darllen o gwmpas pynciau sydd gen i ddiddordeb mawr ynddynt. Astudiais i bopeth o seicoleg plant i ddeall anghydraddoldeb economaidd. Roedd cwblhau'r her yma hefyd o gymorth i mi wrth geisio penderfynu pa bynciau sydd o ddiddordeb i mi wrth ddewis pynciau lefel A a thu hwnt. Roedd cael mynediad i gyrsiau o'r safon yma yn her hwyliog i mi ar ôl cwblhau fy arholiadau TGAU, yn enwedig gan fod gen i haf hir i'w cwblhau. Roedd hyn yn brofiad diddorol a gwerthfawr, llawn gwybodaeth newydd tu allan i'r cwricwlwm arferol.

Hoffem hefyd longyfarch Catrin ar gael ei derbyn ar Raglen Cyfoethogi Academaidd Coleg Lucy Cavendish (Caergrawnt) 2022/23. Dyma brofiad newydd i ddisgybl o Garth Olwg - mae Catrin yn arloeswraig!

## Noson bontio bl 5 a 6

Cafwyd noson hyfryd yn croesawu Blwyddyn 6 i'r ysgol a'u rhieni gyda'r nos. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael blas ar wersi a chyfle yn y nos i weld rhan o berfformiad sioe'r ysgol a hefyd ymweld â'r Adran Addysg Gorfforol a Gwyddoniaeth. Roedd hi'n braf dechrau ar y daith bontio!




## Prif swyddogion

Llongyfarchiadau i Abigail Protheroe, Beca Roberts, Ffion Fairclough a Gethin Rosie-Jones ar gael eu hethol yn Brif Swyddogion yr Ysgol 2022-2023.



SENEDD YSGOL GARTH OLWG

## Gwaith Senedd Ysgol Garth Olwg



### Cyfarfod cynghorydd addysg RhCT

Cawsom ni'r fraint o gael y cynghorydd addysg Gaynor Davies a Rhys Lewis i fynychu cyfarfod Senedd yr Ysgol yn ddiweddar. Roedd yn brofiad gwych i ddisgyblion i gwrdd ag aelodau addysg RhCT a chael clywed am yr holl gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc yn y gymuned. Trafodon ni lawer o syniadau am sut i wella bywyd ysgol i ddisgyblion o bob oedran a beth yw prif bryderon ein disgyblion. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Gaynor Davies a Rhys Lewis am eu cwmni.




### Ymweliad â Senedd Bae Caerdydd

Profiad gwerthfawr oedd gallu mynychu Senedd Cymru ym Mae Caerdydd gyda Senedd yr Ysgol. Siaradon ni gydag aelod o Blaid Cymru a chynrychiolydd ardal Pontypridd - Heledd Fychan. Roedd y diwrnod yn gyfle addysgiadol iawn lle'r oedd y disgyblion wedi dysgu am hanes yr ardal, gwybodaeth am y senedd a deall sut mae'r broses yn gweithio. Cawsom ni brofiad o drafod yn y siambr am faterion ein hysgol a phleidlais ar y diwedd. Fel disgyblion roedd hyn wedi ein hysbrydoli am ein dyfodol. Edrychwn ni ymlaen at ddefnyddio'r profiad yma er mwyn datblygu llwyddiant Senedd Garth Olwg.

### Plant Mewn Angen



Dyma oedd ein cyfle cyntaf ni fel Senedd Garth Olwg i drefnu gweithgareddau i godi arian. Aethon ni ati i benderfynu ar weithgareddau wrth ystyried yr Ysgol Isaf i'r Ysgol Hŷn. Cawsom ni lawer o hwyl wrth wneud hyn gan fod amrywiaeth o weithgareddau ar gael a chyfle i gydweithio fel un gymuned. Ar y dydd roedd llawer o hwyl a sbri yn yr ysgol gyda gwisg anffurfiol, stondinau a llawer o wobrau i ennill. Cyfanswm yr arian a godwyd oedd £1879.42! Diolch i bawb yn yr ysgol a wnaeth gyfrannu at yr elusen bwysig hon.



### Fforymau Ysgol Garth Olwg

FFORWM CYMREICTOD

Ym mis Hydref aethom i Dŷ Ddewi i gynllunio beth allwn wneud i hybu Cymreictod ar draws yr Ysgol ac i feddwl am syniadau gwobrwyo ar gyfer y disgyblion. Roeddwn wedi trefnu diwrnod llawn o weithgareddau ar gyfer diwrnod Shwmae Sumae. Gwnaethom nifer o weithgareddau hwyl gan gynnwys cwis Kahoot, disgo, her yr ysgol gyfan a chystadleuaeth idiom. Hefyd, ar gyfer dathlu llwyddiant Cymru yng Nghwpan y Byd, trefnom nifer o weithgareddau hwyl er mwyn hybu'r iaith Gymraeg. Ychydig wythnosau yn ôl cynhaliwyd disgo Cymreictod i ddisgyblion yr Ysgol Isaf. Roedd y plant wrth eu boddau yn dawnsio gyda'i ffrindiau i gerddoriaeth Gymreig. Roedd hi yn noson i'w chofio. Mae modd gweld ein fideo Shwmae Sumae wrth glicio ar y linc hon.



















FFORWM CYDRADDOLDEB

Mae'r Fforwm Cydraddoldeb wedi bod yn brysur dros yr hanner tymor diwethaf yn codi proffil nifer o faterion pwysig. Defnyddiodd y Fforwm gêm Cymru yn erbyn Iran fel cyfle i ddathlu balchder yn y gymuned LHDTC+ yn yr ysgol gan godi arian tuag at Stonewall. Gwerthwyd bathodyn, bandiau a phaent wyneb i ddangos cefnogaeth. Mae'r fforwm hefyd wedi bod wrthi'n trefnu diwrnod o ddathlu diwylliant wrth werthfawrogi bwydydd melys o bob rhan o'r byd! Roedd yr athrawon a disgyblion yr ysgol hŷn wedi pobi amrywiaeth o gacennau melys er mwyn hybu'r hyn sydd yn gwneud ni'n unigryw a dathlu ein diwylliant yma yng Ngarth Olwg.









FFORWM IECHYD A LLES

Dros y tymor diwethaf, rydym ni fel Fforwm Iechyd a Lles wedi bod yn brysur yn pleidleisio dros ba ymgyrchoedd hoffwn godi ymwybyddiaeth ohonynt dros y flwyddyn hon. Mae'r rhain yn cynnwys; Wythnos Diogelu ar y Ffyrdd, Wythnos Iechyd Meddwl Plant, Caredigrwydd ar Hap a Mis Cerdded Cenedlaethol. Yn ogystal, rydym wedi cydweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg ar ei Siarter Plant. Cefnogon ni nhw gyda'i strategaethau marchnata ac rydym wedi pleidleisio ar yr hyn sydd yn ein gwneud yn hapus yn gorfforol a meddyliol.

FFORWM ECO

Mae'r Fforwm Eco wedi bod yn brysur yn cynllunio am y flwyddyn i ddod. Hoffwn ni fel Fforwm gael mwy o ffynhonnau dŵr o amgylch yr Ysgol a hybu'r defnydd o ail-ddefnyddio poteli. Rydym hefyd wedi bod yn parhau i gasglu sbwriel a gwella gardd yr ysgol. Yn ogystal, er mwyn gwella gyda sefyllfaoedd arian teuluoedd, hoffwn annog ailgylchu gwisg ysgol yn flynyddol.

## Mis Hanes Pobl Dduon

Yn ystod mis Tachwedd cafwyd cyfle i ddathlu mis pobl dduon gan roi ffocws i gyfraniad nifer o bobl dduon ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu ar gynllun Gwrth Hiliol mewn ysgolion a chymdeithas yn hanfodol i sbarduno trafodaethau pwysig a gwerthfawr.

Rhoddwyd cyfle i atgyfnerthu negeseuon a thrafodaethau sydd yn digwydd o fewn gwersi yn ystod mis Tachwedd a chodi ymwybyddiaeth tuag at rai o enwogion blaengar a deinamig o fewn y meysydd dysgu a phrofiad. Yn ogystal â dathlu cyfraniadau positif, cafwyd y cyfle i drafod anghyfiawnder wrth edrych ar straeon y 'Cardiff Five' a Mahmood Mattan fel rhan o ymdrechion Llais 21 yr ysgol. Atgyfnerthwyd hyn gyda gweithdy Marcelle Dos Santos gyda'r Ysgol Ganol yn trafod Gwrthryfel Demerara a chafodd y Pwyllgor Cydraddoldeb fudd enfawr o rannu a thrafod cynlluniau am weddill y flwyddyn gyda Marcelle i sicrhau bod y sgwrs yn parhau. Rydym yn ddiolchgar iawn am gyfraniad a mewnbwn Marcelle i'r ysgol ac am rannu ei phrofiadau. Edrychwn ymlaen at groesawu Marcelle yn ôl ym mis Ionawr i ffocysu ar Ddiddymwyr Caethwasiaeth Cymraeg yn yr Ysgol Uchaf i gloi'r uned o waith gyda blwyddyn 9!







## Lapio'r Nadolig yn Salem

Un bore braf ym mis Tachwedd aeth disgyblion Blwyddyn 2 am dro i gapel Salem lle'r oedd gwledd yn disgwyl amdanynt yng Nghapel Salem. Cymerodd rai o'r disgyblion ran yn sioe'r geni, ac roedd pawb wedi cael y cyfle i addurno bisgedi Nadoligaidd a chreu cardiau lliwgar i fynd adref gyda nhw. Cafodd y plant fore bendigedig yng nghwmni Adam Coleman a gwirfoddolwyr y capel. Diolch yn fawr iawn i chi.





Bydd hi'n wythnos 1 i'r disgyblion pan fyddwn yn dychwelyd yn Ionawr!

## Taith Gemeg

Roedd y daith Gemeg i Brifysgol Abertawe yn hwyl. Roeddwn yn hoff iawn o'r gwaith ymarferol a dysgais eithaf tipyn am offer swyddogol y labordy. Roedd yn bleser i gael y cyfle i gynrychioli'r ysgol mewn pwnc rydw i'n mwynhau. Tro nesaf hoffwn ennill! Byddaf yn hoffi mwy o deithiau fel hyn gan ei bod yn hwyl ac yn addysgiadol. Gan Alice Hanks Doyle, Blwyddyn 10.



## Sioe Elen Benfelen

Ddechrau'r tymor aeth criw o ddisgyblion yr Ysgol Isaf i weld sioe Elen Benfelen yn Theatr y Ganolfan Gydol Oes.
Mwynheuodd pawb y sioe yn fawr iawn ac roeddent wrth eu boddau yn ail adrodd y stori i ni yn y dosbarth.





## Jambori yr Urdd

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang un bore pan gafodd ddisgyblion yr Ysgol Isaf i gyd y cyfle i gymryd rhan yn Jambori yr Urdd i ddymuno yn dda i dîm Cymru yng Nghwpan y Byd.





## Sioe Blood Brothers

Teithiodd myfyrwyr Blwyddyn 13 Drama a Saesneg i Ganolfan y Mileniwm ar y cyntaf o Ragfyr i weld Blood Brothers. Roedd y cynhyrchiad yn wych gyda chaneuon cofiadwy a set safonol. Braint fawr oedd gweld cyn-ddisgybl Jay Worley yn perfformio ar y llwyfan hefyd! Roedd y daith yn un llawn hwyl ac o fudd mawr i ni i ddeall llwyfannu a chymeriadu ar gyfer ein hastudiaethau lefel A.

Diolch hefyd i Jay Worley am ddod i mewn i siarad gyda disgyblion yr ysgol. Roedd y plant wrth eu boddau yn clywed am ei brofiad.








## Sgwrs Greta Thunberg

Cafodd ddisgyblion yr Ysgol Hŷn sy'n astudio Bioleg a Daearyddiaeth y cyfle i wrando ar seminar gan Greta Thunberg am y trychineb colled bioamrywiaeth. Sgwrs ddiddorol iawn. Diolch i @speakrs4schools am y cyfle.

**Profiad Gwaith yn Theatr Y Parc a'r Dâr**

Ar fore tywyll a rhewllyd ar ddechrau Rhagfyr, yn hytrach na dilyn fy nhaith arferol i Ysgol Garth Olwg, ces i gyfle i dreulio diwrnod ym myd y panto yn Theatr Parc a'r Dâr yn Nhreorci. Ces i brofiad unigryw yng nghwmni cast Jack and the Beanstalk a chysgodi'r cyfarwyddwr Richard Tunley, wrth iddo arwain y cast brwd yn yr wythnos olaf cyn i'r sioe agor i'r cyhoedd. Rhaid cyfaddef, roeddwn yn eithaf nerfus wrth gamu i'r theatr, ond diolch i groeso cynnes nifer o'r cyn-ddisgyblion a oedd yn rhan o'r cast, llwyddais i ymlacio a chael blas ar rai o'r gwahaniaethau rhwng cyfarwyddo sioeau theatr a phanto byrlymus. Diolch yn fawr i Mrs Jackson am drefnu'r cyfle euraidd hwn i mi. Gan Tom Hall Williams, Blwyddyn 12.

**Dathlu Cymru yng Nghwpan y Byd**

Cafwyd wythnos llawn sbort yn dathlu llwyddiant Cymru wrth gyrraedd Cwpan y Byd. Cafwyd llwyth o gystadlaethau amrywiol megis ciciau o'r smotyn, keepie uppies, cwisiau a gêm bêl-droed staff yn erbyn Blwyddyn 13. Siom oedd gweld Cymru yn colli i Iran yn y Neuadd Chwaraeon ond roedd yn brofiad gwerth chweil i'r disgyblion i weld Cymru ar lwyfan byd-eang. Cafodd y disgyblion hefyd gyfle i siarad gyda Rhodri Llywelyn o Newyddion Cymru oedd yn Qatar ar gyfer y Cwpan y Byd. Gofynnodd y disgyblion gwestiynau aeddfed iawn. Gwyliwch fideo o'r holl hwyl [yma.]










## Cogurdd


Llongyfarchiadau i dri o Ysgol Garth Olwg sydd wedi ennill lle yn rownd genedlaethol Cogurdd. Da iawn i Sophie Church Blwyddyn 7, Emily Jones, Blwyddyn 10 a Darcy Hidditch Blwyddyn 6. Pob hwyl yn yr Eisteddfod yn y Sulgwyn.




## Dinomania

Y mis hwn bu'r Ysgol Isaf yn hynod o lwcus i gael ymweliad arbennig iawn gan gwmni Dinomania fel sbardun i'n thema ar ddinosoriaid y tymor hwn. Roedd y disgyblion wrth eu boddau ac wedi dysgu nifer o ffeithiau diddorol amdanynt yn ogystal â chael llawer o hwyl. Diolch yn fawr Dinomania!




## Croeso i'r Meithrin

Erbyn hyn mae plant y Dosbarth Meithrin i gyd wedi ymgartrefu yma gyda ni yn yr Ysgol Isaf.
Rydym i gyd yn falch iawn o gael eich croesawu yma i fod yn rhan o deulu Garth Olwg.

## Ioga Pili Pala

Y tymor hwn mae disgyblion y Dosbarth Derbyn yn ffodus iawn i gael cymryd rhan mewn gweithdy ioga i blant bach. Mae'r disgyblion wrth eu boddau gyda'r sesiynau.





## Taith i Bontypridd

Aeth yr adran Ddyniaethau a Chymraeg â Blwyddyn 7 ar daith i Bontypridd yn dilyn y Llwybr Treftadaeth er mwyn dysgu am eu hardal leol. Cafwyd hwyl yn cwblhau helfa drysor a chwarae ym Mharc Ynys Angharad.



| Diwrnodau HMS |
|---|
| ~~Dydd Llun 5ed o Fedi 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 30ain o Fedi 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 9fed o Ragfyr 2022~~ |
| ~~Dydd Gwener 23ain o Ragfyr 2022~~ |
| Dydd Gwener 23ain Mehefin 2023 (I'w gadarnhau) |
| Dydd Llun 24ain Gorffennaf 2023 |

## Taith Llangrannog



Roedd cyffro mawr ar ddydd Mercher y 21ain o Fedi wrth i ddisgyblion Blwyddyn 7 deithio i wersyll yr Urdd yn Llangrannog. Roedd y cyffro yn fwy na'r arfer gan mai dyma'r tro cyntaf i'r ysgol fynd i Langrannog ers 2019! Dyma'r tro cyntaf hefyd i lawer o'r disgyblion fynd i ffwrdd ar wyliau heb deulu.

Cafodd y disgyblion modd i fyw yn gwneud y gweithgareddau. Roedd y bag neidio yn boblogaidd iawn gyda'r disgyblion yn mwynhau neidio oddi ar y platfform uchel a glanio ar y bag aer. Roedd hefyd angen llawer o ddewrder i wneud y weiren sip - roedd y disgyblion yn wên o glust i glust wrth iddyn nhw wibio trwy'r awyr.

Roedd ychydig o law ar yr ail ddiwrnod felly roedd pawb yn mwynhau gwneud y gweithgareddau dan do. Roedd y cwrs rhaffau uchel wedi diddanu pawb ac roedd rhai disgyblion wedi dyfalbarhau ac wedi llwyddo er gwaethaf eu hofn uchder– da iawn chi! Roedd mynd i'r pwll nofio cynnes yn y tywydd oer hefyd yn braf.

Gyda'r hwyr, roedd gweithgareddau'r nos yn gyfle i'r disgyblion wneud pethau gwahanol. Ar y noson gyntaf, cerddon nhw dros y mynydd a draw i draeth Llangrannog. Yna, cawson nhw modd i fyw wrth gwblhau gweithgareddau chwaraeon gyda'r swogs cyn gwneud bach o ddawnsio gwerin yn y twmpath. Ar yr ail noson, roedd nifer o ddisgyblion wedi mwynhau dawnsio yn y disgo tra bod rhai eraill wedi mwynhau gwylio gêm pêl-droed Cymru a Gwlad Belg – roedd hi'n gêm gyffrous!

Roedd y bwyd hefyd yn uchafbwynt gyda llawer o brydau bendigedig megis lasagne, *goujons* cyw iâr, pasta ac, wrth gwrs, sglodion! Neis hefyd oedd cael sgwash a chreision cyn mynd i'r gwely.



Erbyn cyrraedd yn ôl i'r ysgol ar brynhawn Gwener roedd pawb wedi blino'n lân ond wedi cael amser arbennig o dda yn y gwersyll ger y lli. Mae diolch mawr yn mynd i'r athrawon a'r swogs am ofalu am y disgyblion a hefyd wrth gwrs i Mrs. Llwyd, Mrs. Bradberry, Miss. Jones a Miss. Hart am drefnu.







## Gweithdai Cerddoriaeth

Diolch i Mr Mark Hibbert am roi dau weithdy samba i ddisgyblion bl 9 fel rhan o thema'r tymor cyntaf, Cerddoriaeth y Byd.  Roedd y disgyblion wrth eu bodd yn dysgu ac yn perfformio rhythmau amrywiol.





Ar y 23ain o Dachwedd cynhaliwyd gweithdy telyn gan y Gwasanaeth Cerdd lle bu tri disgybl bl 9, Elliw Porter, Mari Roberts ac Anya Edwards yn ymarfer eu sgiliau ensemble gyda disgyblion o Ysgol Rhydywaun.

## Gwasanaeth Nadolig

Ar y 21ain o Ragfyr cynhaliwyd gwasanaeth yn Neuadd Chwaraeon yr ysgol lle daeth rhieni a ffrindiau ynghyd i wrando ar eitemau cerddorol, cyflwyniadau, dawns a darlleniadau gan ddisgyblion ar draws yr ysgol.  Dyma'r tro cyntaf i'r noson gael ei chynnal yn fyw ers tair blynedd. Roedd hi'n noson hyfryd ac yn ffordd arbennig o gloi tymor cyntaf prysur.







## Dathlu llwyddiannau

Cafwyd cyfle hyfryd i ddosbarthu tystysgrifau a chael sgwrs a phaned gyda disgyblion y 6ed dosbarth a oedd wedi gadael yn 2019 a 2020 ac na chafodd seremoni wobrwyo oherwydd Covid-19. Braf oedd clywed eu hanes a chlywed am eu swyddi a bywyd prifysgol.



## Llwyddiannau chwaraeon

Llongyfarchiadau i Ferched Blwyddyn 9 a 10 am ennill twrnamaint Pêl-fasged 3x3 yr Urdd yn genedlaethol! Da iawn chi ferched – camp anhygoel!




Llongyfarchiadau i Finely Davies, Bl8 a Lani Jones, Bl 9 ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth Trampolinio Cymru.








Da iawn i Flwyddyn 7 ac 8 am ddod yn ail yng nghystadleuaeth y plât pêl-rwyd yr Urdd. Am gyflawniad ardderchog!

Mae 3 o'n disgyblion ym mlwyddyn 10 wedi llwyddo i ennill chwaraewr y gêm wrth chwarae dros Ysgolion Pontypridd o dan 15. Llongyfarchiadau i Ioan Leyshon, Rhys Wyatt a Ryan Jones am eu camp.









Mae Ioan Minton, Blwyddyn 12 wedi cael ei ddewis i chwarae dros Gymru mewn pêl-fasged o dan 17. Pob hwyl gyda'r ymarferion!

**Dilynwch ni ar Twitter :**
**@garth_olwg | @TE_Prifathro | @OlwgPontio @GarthOlwg_Canol | @GarthOlwg_Hyn | @GarthOlwg_Isaf | @IechydaLlesGO | @AddGorffGO | @mathgarth | @GarthOlwg_AwyrA | @SaesnegGO @OlwgPontio @adranYGymraegGO | @DaearGO | @DramaOlwg | @CelfyddydauYGO | @IRhGarth |@GwyddGarth | @CelfGarth |@PwyllgorEcoGO @DyniaethauGO | @GarthOlwg_DaTh |@CerddoriaethGO**

YSGOL GARTH OLWG

Mae’r timoedd pêl-rwyd, rygbi, traws gwlad a phêl-droed yr ysgol wedi bod yn hynod o lwyddiannus a phrysur y tymor hwn hefyd gyda thîm 1af rygbi’r ysgol yn cyrraedd y rownd gynderfynol yng nghystadleuaeth y fâs Cymru, tîm pêl-droed Blwyddyn 11 yn cyrraedd rownd gogynderfynol Cwpan Cymru a thîm Merched 1af yr ysgol yn ennill ei gêm bêl-droed ddiwethaf o 14-3.





